



## Amcan Llesiant 6

### Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

**Sut y byddwn yn gwneud hyn? Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn**

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
<b>A</b>	<b>Yn rhanbarthol, drwy gydlynw a chyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe</b>	
<b>1</b>	<p>Fel rhan o'r Fargen Ddinesig, byddwn yn cyflwyno'r cynllun prosiect ar gyfer y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant. I gynnwys :-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu manylebau cynllunio a gofod manwl</li> <li>• cyflawni'r cam cynllunio llawn a chychwyn ar y cam dylunio ac adeiladu sicrhau bod ymgysylltu'n digwydd â'r gymuned a'r cyhoedd wrth ddatblygu'r Pentref a defnyddio hyn i hyrwyddo cysylltedd a chyfranogiad cymunedol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd <b>MF5-72a</b> (Rhif Cam Gweithredu 12985)</li> </ul>	Mehffin 2019
<b>2</b>	Byddwn yn cefnogi'r gwaith o gwblhau'r Egin (sy'n costio £24 miliwn) i sicrhau bod y Sir yn elwa'n llwyr o'r cyfleoedd a grëir yn sgil y buddsoddiad gwerth £1.3 biliwn a wneir o ganlyniad i Fargen Ddinesig Bae Abertawe <b>MF5-72C</b>	Mawrth 2023
<b>3</b>	Byddwn yn cynnal Swyddfa Ranbarthol Bargen Ddinesig Bae Abertawe <b>MF5-72d</b>	Mawrth 2019
<b>B</b>	<b>Yn lleol, trwy gyflawni Cynlluniau Ardal y Strategaeth Drawsnewidiol gan dargedu ardaloedd trefol, arfordirol a gwledig Sir Gaerfyrddin.</b>	
<b>1</b>	<p>Byddwn yn cyflawni cynllun <b>trawsnewidiol Caerfyrddin, Rhydaman a Gwledig</b> ac yn darparu mentrau a phrosiectau i gefnogi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddi a grëwyd</li> <li>• Swyddi mewn lleoliad newydd</li> <li>• Yr arwynebedd llawr a grëwyd</li> <li>• Niferoedd i gael hyfforddiant</li> <li>• Niferoedd i gael gwaith</li> <li>• Cyllid o'r sector preifat</li> </ul> <p>Trwy Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin; Cronfeydd Datblygu Eiddo; Prosiectau yn cynnwys Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn; Lledu'r ffordd yn Stryd Marged; Gwlyptiroedd Caerfyrddin a datblygu Lôn Jackson yng Nghaerfyrddin; Rheoli Cyfrifon Busnes, Cychwyn Busnesau a Meithrin Busnesau.</p>	Mawrth 2019
<b>2</b>	Byddwn yn cyflwyno Cronfa Datblygu Eiddo gwerth £8.6 miliwn (£3 miliwn gan y Cyngor a tua £5.6 miliwn yn fuddsoddiad sector preifat <b>MF5-73f</b>	Mawrth 2019
<b>3</b>	<p>Byddwn yn cyflawni <b>Parth Twf Cross Hands, Llanelli a Llain Arfordirol y Cynllun Trawsnewidiol</b> ac yn cyflawni mentrau a phrosiectau i gefnogi</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddi a grëir</li> <li>• Swyddi mewn lleoliad newydd</li> <li>• Yr arwynebedd llawr a grëwyd</li> <li>• Niferoedd i gael hyfforddiant</li> <li>• Niferoedd i gael gwaith</li> <li>• Cyllid o'r sector preifat</li> </ul> <p>Trwy Fenthyciadau Canol Tref Llanelli; Prosiectau'n cynnwys Stryd Cyfleoedd, Llanelli; Cam 2 Dwyrain Cross Hands; Safle Cyflogaeth Strategol; Gweithffyrdd + Buccaneer; Rheoli Cyfrifon Busnes; Bwrsariaeth y Goleudy; Cronfa twf busnesau a chronfa cychwyn busnes. <b>MF5-73d</b></p>	Mawrth 2019
<b>4</b>	Byddwn yn datblygu Safleoedd Cyflogaeth Lleol ledled y sir fel rhan o'r Trawsnewidiadau: cynllun adfywio strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin <b>MF5-73e</b>	Mawrth 2019

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
5	Byddwn yn datblygu rhaglen i gefnogi busnesau bach ledled y sir. <b>MF5-78</b>	Mawrth 2019
6	Byddwn yn darparu datblygiadau trawsnewidiol yng nghanol tref Llanelli <b>MF5 73a</b>	Mawrth 2023
7	Byddwn yn datblygu ymhellach Lain Arfordirol Sir Gaerfyrddin ym Mhen-bre <b>MF5-73C</b>	Mawrth 2023
8	Byddwn yn datblygu ymhellach Lain Arfordirol Sir Gaerfyrddin ym Mhentywyn	Mawrth 2023
9	Byddwn yn cyflawni cam 2 o ddatblygiad Gweithdai Glanaman er mwyn gwella'r ddarpariaeth o ran gweithdai. <b>MF5-10</b>	Mawrth 2020
<b>C</b>	<b>Trwy nodi a mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu cymunedau gwledig</b>	
1	Byddwn yn cyflwyno'r -Gronfa Mentrau Gwledig sydd werth £4.3 miliwn (£2 filiwn gan y Cyngor a tua £2.3 miliwn yn fuddsoddiad sector preifat). <b>MF5-73g</b>	Mawrth 2019
2	Byddwn yn rhoi ystyriaeth i gyfleoedd i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sefydlu Bargen Wledig i ganolbwyntio ar adfywio gwledig. <b>MF5-77</b>	Mawrth 2019
3	Byddwn yn sefydlu Grŵp Gorchwyl i ystyried y materion sy'n effeithio ar gymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin ac i nodi camau y gall y Cyngor eu cymryd i fynd i'r afael â nhw mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus a sefydliadau eraill. <b>MF5-76</b>	Mawrth 2019
4	Byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o ffermydd y Cyngor er mwyn cefnogi mentrau ffermio fforddiadwy. <b>MF5-14.</b>	Mawrth 2020
5	Byddwn yn sefydlu mentrau adfywio i ganolbwyntio ar ddatblygu trefi marchnad gwledig yn y sir <b>MF5-73b</b>	Mawrth 2019
<b>D</b>	<b>Drwy ddatblygu dysgu, sgiliau, cyflogadwyedd ac annog ysbryd o entrepreneuriaeth ledled y sir i gefnogi busnesau newydd yn y sir.</b>	
1	Byddwn yn darparu'r Fenter Sgiliau a Thalentau £30 miliwn i sicrhau bod y Sir yn elwa'n llwyr o'r cyfleoedd a grëir yn sgil y buddsoddiad gwerth £1.3 biliwn a wneir o ganlyniad i Fargen Ddinesig Bae Abertawe. <b>MF5-72b</b>	Mawrth 2023
2	Byddwn yn ymestyn y model Hwb a ddatblygwyd yn Llanelli i Rydaman a Chaerfyrddin, gan wneud gwasanaethau cymorth rheng flaen yn fwy hygyrch i drigolion <b>MF5-83 (Hefyd yn Amcan Llesiant 5)</b>	Mawrth 2019
<b>E</b>	<b>Datblygu Caerfyrddin fel economi ddeinamig</b>	
1	Byddwn yn ymchwilio ac yn monitro effaith BREXIT ar economi Sir Gaerfyrddin <b>MF5-84</b>	Mawrth 2019
2	Byddwn yn ceisio cael cymaint o arian allanol â phosibl er mwyn gwireddu gweithgareddau economaidd ar draws y sir ac er mwyn cefnogi twf y trydydd sector.	Mawrth 2019
3	Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag anawsterau o ran mynediad i fand eang cyflym iawn a signal ffôn symudol ledled y Sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. <b>MF5-74</b>	Mawrth 2019
4	Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio ei stoc a'i asedau i hwyluso datblygiad economaidd y Sir. <b>MF5-79 a MF5-92</b>	Mawrth 2019
5	Byddwn yn arwain ac yn cwblhau'r holl gaffaeliadau tir sydd eu hangen i hwyluso cynlluniau priffyrdd strategol megis Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands a Llwybr Beicio Dyffryn Tywi.	Mawrth 2019
6	Byddwn yn datblygu a darparu Cynllun Rheoli Cyrchfannau Twristiaeth ar gyfer y Sir Gyfan 2015-2020 ac yn cefnogi hybu Sir Gaerfyrddin fel lle deniadol o safon i aros ac ymweld ag ef.	Mawrth 2019
7	Byddwn yn adolygu cymorth grant trydydd parti mewn perthynas â gofynion yr iaith Gymraeg	Mawrth 2019

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
8	Byddwn yn cyflawni cynllun trawsnewid ar gyfer y ddarpariaeth bresennol o ran Amgueddfeydd yn Amgueddfa'r Sir yn Abergwili, Parc Howard, Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli ac Amgueddfa Cyflymder Pentywyn i wella'r ddarpariaeth ar gyfer trigolion ac ymwelwyr, gan gynnal hefyd gysylltiadau ag amgueddfeydd annibynnol yn y sir a'u hyrwyddo. Yn ogystal, bwriedir gwneud gwaith i ddatblygu rhagor ar Oriol Myrddin. <b>MF5-64</b> (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 8 a 14)	Mawrth 2022
9	Byddwn yn cychwyn ar gynllun trawsnewid yr amgueddfeydd drwy waith ailddatblygu gwerth £1.2m yn Amgueddfa'r Sir yn Abergwili. <b>MF5-65</b> (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 8 a 14)	Mawrth 2020
10	Byddwn yn adolygu ac yn ailddatblygu darpariaeth y Cyngor o ran gwasanaethau theatr. <b>MF5-66</b> (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 8 a 14)	Mawrth 2019
11	Byddwn yn gwella ac yn datblygu'r seilwaith a'r cyfleusterau ym Mharc Gwledig Pen-bre i'w alluogi i fod yn gyfleuster o'r radd flaenaf i drigolion ac ymwelwyr. <b>MF5-67</b> (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 8)	Mawrth 2020
12	Byddwn yn cyflawni rhaglen gwerth £2 filiwn i ailddatblygu Harbwr Porth Tywyn. <b>MF5-69</b> (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 8)	Mawrth 2019
13	Byddwn yn cefnogi grwpiau a sefydliadau cymunedol i hyrwyddo a chyhoeddi'r amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymunedol a gynhelir yn Sir Gaerfyrddin, boed yn sioeau amaethyddol, yn wyliau, yn garnifalau, yn arddangosfeydd, yn gyngherddau ac yn berfformiadau <b>MF5-85</b> (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 9 ac 14)	Mawrth 2019
<b>F</b>	<b>Mesurau Perfformiad Cyffredinol</b>	
1	Byddwn yn anelu at greu <b>263 i'w gadarnhau</b> yn fwy o swyddi (EconD/001) (Canlyniad 2017/18 – 352.5)	263
2	Byddwn yn anelu at greu <b>97 i'w gadarnhau</b> o swyddi mewn lleoliad newydd (EconD/002) (Canlyniad 2017/18 - 195)	97
3	Byddwn yn anelu at osod <b>116 i'w gadarnhau</b> o bobl mewn swyddi (EconD/003) (Canlyniad 2017/18 – 250.5)	116
4	Byddwn yn anelu at helpu 935 o bobl i wirfoddoli â chymorth Adfywio. (Canlyniad 2017/18 - 1,141)	935
5	Lefel Buddsoddiad y Sector Preifat / cyllid allanol a sicrhawyd <b>£11.3m</b> (EconD/008) (Canlyniad 2017/18 – £16,721,475)	£11.3m
6	Byddwn yn sicrhau bod canran uchel o anfonebau diddadi yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod i helpu llif arian busnesau lleol (CFH/006) (Canlyniad 2017/18 – 92.8%)	93.5%
7	Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnal archwiliadau safonau masnachu ar gyfer yr holl fusnesau risg uchel (PPN/001i) (Canlyniad 2017/18 -100%)	100%
8	Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnal archwiliadau iechyd anifeiliaid ar gyfer yr holl fusnesau risg uchel (PPN/001iii) (Canlyniad 2017/18 - 92%)	100%

## Mesurau Llwyddiant

**Ffigurau cyflogaeth** (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth) (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol)

**Tâl wythnosol gros (Canolrifol)** (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion)

**Nifer â chymwysterau hyd at NVQ Lefel 4 neu'n uwch** (StatsCymru) (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol)

**Pobl yn weddol fodlon neu'n fodlon iawn â'u swyddi** (Arolwg Cenedlaethol Cymru) (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol)